# Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

## Cofnodion EUR(2) 02-07

### Dyddiad y cyfarfod: 28 Chwefror 2007
### Amser y cyfarfod: 9:30 – 12.31
### Lleoliad y cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 3, Y Senedd, Bae Caerdydd

#### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol

| Aelod Cynulliad | Etholaeth |
|---|---|
| Sandy Mewies (Cadeirydd) | Delyn |
| Rosemary Butler | Gorllewin Casnewydd |
| Jeff Cuthbert | Caerffili |
| Janet Davies | Gorllewin De Cymru |
| Mike German | Dwyrain De Cymru |
| Rhodri Morgan (Prif Weinidog Cymru) | Gorllewin Caerdydd |
| Rhodri Glyn Thomas | Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |

#### Swyddogion yn Bresennol

| Enw | Teitl Swydd |
|---|---|
| Gary Davies | Pennaeth Materion Ewropeaidd ac Allanol |
| Des Clifford | Pennaeth Swyddfa Brwsel yr Undeb Ewropeaidd |
| Terri Thomas | Pennaeth yr Is-adran Polisi Cefn Gwlad |

#### Eraill yn Bresennol

| Enw | Yn cynrychioli |
|---|---|
| Andy Klom | Pennaeth Swyddfa'r Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru |

| | |
|---|---|
| Robert Holmes Tuttle | Llysgennad Unol Daleithiau America i Lys Sant Iago |
| Maria Tuttle | . |
| Comisiynydd Margot Wallström | Is Lywydd/Comisiynydd dros Berthnasau Sefydliadol a Strategaeth Gyfathrebu |

## Gwasanaeth y Pwyllgorau

| | |
|---|---|
| Chris Reading | Clerc y Pwyllgor |
| Sarah Bartlett | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |
| Anna Daniel | Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau |

## Eitem 1: Cyflwyniad, Ymddiheuriadau, Dirprwyon a Datgan Buddiannau

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Ieuan Wyn Jones AC, Jonathan Morgan AC, Christine Gwyther AC, Nick Bourne AC, Glenys Kinnock, ASE; Eluned Morgan, ASE; Jonathan Evans, ASE; Jill Evans, ASE a Rose D'Sa.

1.2 Mae cofnod gair-am-air o'r cyfarfod ar gael.

## Eitem 2: Cofnodion y cyfarfod blaenorol a materion yn codi

Papur: EUR(2) 01-07 – Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Ionawr
Papur: EUR(2) 02-07 – Cam heb ei gymryd

2.1 Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Ionawr fel cofnod cywir.

## Eitem 3: Adroddiad Prif Weinidog Cymru

Papur: EUR(2) 02-07 (p1)

3.1 Cyflwynodd Prif Weinidog Cymru ei adroddiad.

Pwyntiau Gweithredu:

- Addawodd Prif Weinidog Cymru ddarparu dadansoddiad o ble mae myfyrwyr o Tsieina yn astudio yng Nghymru.
- Addawodd Prif Weinidog Cymru gadarnhau a gafwyd arddangosfa Dydd Gwyl Dewi yn y ganolfan groeso yng nghanol Llundain.
- Addawodd Prif Weinidog Cymru ddosbarthu nodyn i Aelodau ynghylch y cynnydd o ran y Cynllun Datblygu Gwledig, gan gyfeirio'n benodol at y cytundeb ar fodiwleiddio gwirfoddol ac arian cyfatebol.

## Eitem 4: Adroddiad ar yr Adolygiad Polisi

Papur: EUR(2) 02-07 (p2)

4.1 Cytunodd y Pwyllgor ar yr argymhellion yn yr adroddiad drafft.

Pwynt Gweithredu:

- Gofynnwyd i'r Clerc ddosbarthu'r adroddiad ar yr adolygiad polisi drafft i holl Aelodau'r Cynulliad cyn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus ar 6 Mawrth.
- Yn amodol ar unrhyw sylwadau terfynol gan Aelodau bydd y Clerc yn trefnu i gyfieithu ac argraffu'r adroddiad terfynol.

## Eitem 5: Adroddiad Blynyddol, Papur i'w drosglwyddo i'r Trydydd Cynulliad a Rhaglen Waith y Comisiwn Ewropeaidd 2007

Papur: EUR(2) 02-07 (p3)
Papur: EUR(2) 02-07 (p4)
Papur: EUR(2) 02-07 (p5)
Papur: EUR(2) 02-07 (p6)

5.1 Cytunodd y Pwyllgor ar yr adroddiad blynyddol (yn amodol ar y gwelliant a ddisgrifir isod) a'r papur i'w gyflwyno i'r Trydydd Cynulliad (yn amodol ar gynnwys testunau o Raglen Waith y Comisiwn Ewropeaidd 2007).

5.2 Nododd y Pwyllgor y papurau ar raglen waith y Comisiwn Ewropeaidd 2007.

Pwynt Gweithredu:

- Gofynnwyd i'r Clerc gynnwys paragraff yn yr adroddiad blynyddol yn cyfeirio at y gwaith a wnaed gan y Pwyllgor ynghylch y defnydd o'r iaith Gymraeg yn amrywiol sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd.

## Eitem 6: Y wybodaeth ddiweddaraf gan Aelodau Pwyllgor y Rhanbarthau

6.1 Clywodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf ar lafar gan Rosemary Butler AC a Janet Davies AC o ran cyfarfodydd diweddar Pwyllgor y Rhanbarthau.

Pwynt Gweithredu:

- Addawodd Janet Davies AC ddarparu copi electronig i'r Clerc o lythyr a gyflwynodd i ECOS, i'w ddosbarthu i'r Aelodau.

### Eitem 7: Anerchiad gan Ei Ardderchowgrwydd Robert Holmes Tuttle, Llysgennad Unol Daleithiau America i Lys Sant Iago

7.1 Croesawodd y Pwyllgor y cyflwyniad gan y Llysgennad, gan gynnwys neges Dydd Gwyl Dewi gan yr Arlywydd George W Bush.

### Eitem 8: Margot Wallström Comisiynydd y Comisiwn Ewropeaid

8.1 Croesawodd y Pwyllgor y cyflwyniad gan y Comisiynydd ynghylch sut y gellid cyfleu materion Ewropeaidd yn well i ddinasyddion gan wleidyddion a sut y gellid gwella addysg dinasyddiaeth Ewropeaidd.

8.2 Rhoddodd Prif Weinidog Cymru wahoddiad i'r Comisiynydd ddod ar ymweliad ffurfiol â Chymru yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Derbyniwyd y gwahoddiad hwn.

Pwynt Gweithredu:

- Gofynnwyd i'r Clerc anfon copi o adroddiad adolygiad polisi'r Pwyllgor at y Comisiynydd Wallström.

### Sylwadau i Gloi

9.1 Diolchodd Prif Weinidog Cymru i'r Cadeirydd am ei gwaith yn cadeirio'r pwyllgor dros y pedair blynedd ddiwethaf.

9.2 Diolchodd y Cadeirydd i Brif Weinidog Cymru , yr Aelodau a'r swyddogion am eu cefnogaeth a dymunodd yn dda i'r pwyllgor a fydd yn olynu ar gyfer y dyfodol.

## Gwasanaeth y Pwyllgorau